Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
General Teaching Council for Wales

Cyrchu Cyllid ar gyfer Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar

Diwygiwyd Mehefin 2008

PWYSIG: CADWCH Y LLYFRYN HWN YN DDIOGEL

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynnwys

Adran		tudalen
1.0	Cyflwyniad	3
2.0	Diben y ddogfen hon	3
3.0	Perthnasedd y ddogfen hon	3
4.0	Cyrchu dogfennau a ffurflenni	4
5.0	Sut i gyrchu cyllid ar gyfer athrawon sy'n ymgymryd â Sefydlu statudol	5
6.0	Sut i gyrchu cyllid ar gyfer athrawon sy'n ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC)	10
7.0	Cysylltiadau defnyddiol	20

1.0 Cyflwyniad

Mae pob athro/athrawes newydd gymhwyso (ANG) yn cael cymorth wrth ddechrau eu gyrfa addysgu ar ffurf blwyddyn Sefydlu statudol, wedi'i dilyn gan hawl i ddwy flynedd pellach o Ddatblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC). Darperir cyllid ar gyfer y ddwy raglen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC).

Ar gais Llywodraeth Cynulliad Cymru, er mis Medi 2006, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) sy'n gweinyddu'r cyllid ar gyfer y ddwy raglen yng Nghymru.

2.0 Diben y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau y mae'n **rhaid** i ysgolion eu dilyn er mwyn cyrchu cyllid ar gyfer:

- athrawon sy'n ymgymryd â Sefydlu statudol
- athrawon sy'n ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Cynnar

Ni all CyngACC ryddhau cyllid o dan unrhyw amgylchiadau eraill.

3.0 Perthnasedd y ddogfen hon

Mae cyllid yn elfen bwysig wrth ddarparu Sefydlu statudol a Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC) ar gyfer athrawon. Bydd rhaid cadw at y camau a nodir yn y ddogfen hon er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cael y cyllid priodol.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol nodi mai dim ond un elfen yw cyllid o'r sawl y mae'r rhaglenni Sefydlu Statudol a Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC) yn eu cynnwys ac **nid yw'r ddogfen hon yn darparu arweiniad mewn perthynas â chynnwys neu ddull rheoli Sefydlu a DPC.**

Yn ogystal â'r ddogfen hon, mae'n **rhaid** cyfeirio at y dogfennau canlynol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chadw atynt er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cael y cyllid priodol ac yn darparu rhaglenni priodol ar gyfer athrawon:

- Cylchlythyr Arweiniad CLICC 15/2008 – Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yng Nghymru (diwygiedig Mehefin 2008)
- Dogfen Wybodaeth – Llawlyfr Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar
- Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 OS Rhif 1818 (C. 146)

Os bydd ysgol neu athro/athrawes unigol am gael arweiniad neu gyngor penodol mewn perthynas â Sefydlu unigolyn, dylid cysylltu â'r Cydlynydd Sefydlu yn yr AALl.

Mae'r ddogfen hon a'r dogfennau a restrir uchod yn berthnasol i'r cynulleidfaoedd canlynol:

- Athrawon Newydd Gymhwyso
- Athrawon Datblygiad Proffesiynol Cynnar
- Tiwtoriaid Sefydlu
- Mentoriaid DPC
- Penaethiaid
- Cydlynwyr Datblygiad Proffesiynol/ Swyddogion Datblygu Staff
- Bwrsariaid
- AALlau wrth gyflawni eu rôl fel y Corff Priodol yn y broses Sefydlu

4.0 Cyrchu dogfennau a ffurflenni

Mae'r dogfennau y cyfeirir atynt yn yr arweiniad hwn, gan gynnwys y ffurflenni y mae'n rhaid eu cwblhau er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei ryddhau, a chopïau ychwanegol o'r llyfryn hwn ar gael gan y ffynonellau canlynol:

Cyrchu Cyllid ar gyfer Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar (dogfen CyngACC)

- ar gael fel copi caled gan Dîm Sefydlu a DPC CyngACC (ceir manylion cyswllt ar dudalen 20)
- ar gael i'w lawrlwytho o http://www.gtcw.org.uk/documents/epd/Accessing%20Funding%20for%20Induction%20&%20EPD%20W.pdf

Ffurflenni (mewn perthynas â chyrchu Cyllid)

- ar gael fel copi caled gan Dîm Cyllido Sefydlu a DPC CyngACC (ceir manylion cyswllt ar dudalen 20)
- ar gael i'w lawrlwytho o http://www.gtcw.org.uk/epd_forms_cym.html (Gwefan CyngACC)
- ar gael i'w lawrlwytho o www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau (gwefan LICC)
- ar gael i'w hargraffu o'r CDRom: Llyfryn Gwybodaeth – Llawlyfr Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar

Cylchlythyr Arweiniad CLICC 15/2008 – Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yng Nghymru (diwygiedig Mehefin 2008) (dogfen LICC)

- dylai fod gan bob ysgol gopi caled fel y dosbarthwyd gan LICC
- mae copïau caled ychwanegol ar gael gan y Tîm Sefydlu yn LICC (ceir manylion cyswllt ar dudalen 20)
- ar gael i'w lawrlwytho o www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau (gwefan LICC)
- ceir dolen gyswllt i'r ddogfen ar http://www.gtcw.org.uk/induction&epd_documentation_cym.html (gwefan CyngACC)

Llyfryn Gwybodaeth - Llawlyfr Sefydlu a Datblygu Proffesiynol Cynnar (dogfen LICC)

- Mae'r CD-Rom ar gael gan y Cydlynydd Sefydlu yn yr AALl
- gellir cael CD-Romau ychwanegol gan y Tîm Sefydlu yn LICC (ceir manylion cyswllt ar dudalen 20)
- ar gael i'w lawrlwytho o www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau (gwefan LICC)
- ceir dolen gyswllt ar http://www.gtcw.org.uk/induction&epd_documentation_cym.html (gwefan CyngACC)

Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 OS 2005 Rhif 1818 (C. 146)

- ar gael i'w lawrlwytho o www.opsi.gov.uk/legislation/wales/w-stat.htm

Cofrestru Athrawon – Arweiniad i Gyflogwyr (dogfen CyngACC)

- ar gael fel copi caled gan Dîm Cymwysterau a Chofrestru CyngACC (ceir manylion cyswllt ar dudalen 20)
- ar gael i'w lawrlwytho o http://www.gtcw.org.uk/documents/registration/GTCW%20Employer%20Guidance%20CYM.pdf (gwefan CyngACC)

5.0 Sut i gyrchu cyllid ar gyfer athrawon sy'n ymgymryd â Sefydlu statudol

5.1 Manylion yr adran hon

Mae'r adran hon yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn cyrchu cyllid ar gyfer athrawon sy'n ymgymryd â Sefydlu statudol.

Mae angen i ysgolion ddilyn y camau a nodir yn is-adran 5.2 er mwyn sicrhau bod y cyllid ar gyfer Sefydlu statudol yn cael ei ryddhau i ysgolion yn llwyddiannus ac yn brydlon.

Os na dderbynnir y gwaith papur yn ôl yr amserlenni penodol, ni thelir y cyllid i ysgolion.

Mae pob cam yn nodi'r canlynol:

- y corff sy'n gyfrifol am y cam;
- gweithredu gofynnol, gan gynnwys unrhyw ffurflenni angenrheidiol y mae angen i'w cwblhau;
- terfyn amser ar gyfer cwblhau'r cam gweithredu, lle y bo'n briodol;
- manylion y corff y dylid anfon unrhyw ffurflenni ato, lle y bo'n briodol.

Mae Camau 1 a 3 yn ymwneud yn benodol â cham gweithredu i'r ysgol; os bydd yr ysgol yn methu â chwblhau'r camau hyn o fewn yr amserlenni a osodwyd, ni fydd CyngACC yn rhyddhau cyllid i'r ysgol.

Mae'r adran hon yn darparu manylion mewn perthynas â chyllid Sefydlu'n unig. Os oes angen arweiniad ar yr ysgol mewn perthynas ag unrhyw agwedd arall ar Sefydlu statudol, er enghraifft:

- pa gyfnodau cyflogaeth a all gyfrif tuag at Sefydlu;
- sut y dylid monitro, cefnogi ac asesu ANG yn ystod Sefydlu;
- rolau a chyfrifoldebau'r rhain sy'n ymwneud â Sefydlu;

dylech gyfeirio at ddogfennau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y lle cyntaf (gweler adran 3.0). Os oes angen gwybodaeth neu gyngor pellach ar yr ysgol mewn perthynas â hyn, dylai'r ysgol gysylltu â'r Cydlynydd Sefydlu yn yr AALl (sef y Corff Priodol ar gyfer Sefydlu). **Dylid gwneud hyn cyn cychwyn ar y camau a nodir drosodd, gan y gallai methu â gwneud hyn effeithio ar y broses o ryddhau cyllid Sefydlu i'r ysgol.**

5.2 Camau ar gyfer cyrchu cyllid Sefydlu

*ANG **sy'n dechrau** tymor (neu gyfnod cyfwerth) o Sefydlu*[1]

CAM 1	
Corff cyfrifol?	**Ysgol**
Pa weithred?	Rhaid cwblhau'r ffurflen ganlynol: • **Cofnod Sefydlu ANG** (Mae'r ffurflen yn hysbysu CyngACC bod athro/athrawes yn dechrau cyfnod Sefydlu. **Nid yw cyflwyno'r ffurflen hon i GyngACC yn golygu bod athro/athrawes wedi'u cofrestru gyda ChyngACC** - i gael gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r mater hwn, dylai ysgolion gyfeirio at ddogfen CyngACC ***Cofrestru Athrawon – Arweiniad i Gyflogwyr***)
Erbyn pryd?	Pan benodir yr ANG, ond ar yr hwyraf o fewn 10 diwrnod gwaith o ddechrau cyfnod cyflogaeth a fydd yn cyfrif tuag at Sefydlu[1]
I ble?	Tîm Sefydlu a DPC CyngACC

Nodwch, os yw athro/athrawes wedi'u cyflogi yn yr un ysgol am yr holl gyfnod Sefydlu (fel arfer, 3 thymor ysgol), unwaith yn unig y bydd angen cwblhau Cam 1, sef ar gyfer y tymor cyntaf o Sefydlu.

CAM 2	
Corff cyfrifol?	**CyngACC**
Pa weithred?	Pan dderbynnir y Cofnod Sefydlu ANG, bydd yn gwneud y canlynol: • gwirio bod yr athro/athrawes: ✓ yn meddu ar Statws Athro Cymwysedig (SAC)[2]; ✓ wedi'i cofrestru/chofrestru gyda ChyngACC[2]; ✓ yn gymwys i ymgymryd â Sefydlu[2]; ➢ os cadarnheir yr uchod, bydd CyngACC yn: • ysgrifennu at yr ysgol i gadarnhau derbyn y Cofnod Sefydlu ANG; • hysbysu'r Cydlynydd Sefydlu yn yr AALl er mwyn i'r AALl gyflawni ei rôl fel y Corff Priodol ar gyfer Sefydlu ➢ os na chadarnheir yr uchod, bydd CyngACC yn: • ysgrifennu at yr ysgol a'r AALl mewn perthynas â hyn

Os bydd oriau contract athro/athrawes yn newid, mae'n bwysig cysylltu â ChyngACC

[1] Cyn dechrau rhaglen Sefydlu cyfeiriwch at Gylchlythyr Arweiniad CLICC 15/2008 – Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yng Nghymru (diwygiedig Mehefin 2008) neu cysylltwch â'r Cydlynydd Sefydlu yn yr AALl i sicrhau y gall y cyfnod cyflogaeth gyfrif tuag at Sefydlu

[2] Nodir perthnasedd y meini prawf hyn i'r rhaglen Sefydlu yng Nghylchlythyr Arweiniad CLICC 15/2008 – Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yng Nghymru (diwygiedig Mehefin 2008)

*ANG **sy'n cwblhau** tymor (neu gyfnod cyfwerth) o Sefydlu*[3]

CAM 3	
Corff cyfrifol?	**Ysgol**
Pa weithred?	Rhaid cwblhau'r ffurflen ganlynol: • **Cofnod Asesu Sefydlu**
Erbyn pryd?	Dylid cynnal cyfarfod asesu tua diwedd tymor Sefydlu a dylid dychwelyd y gwaith papur wedi'i gwblhau o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod asesu[4]. Wrth gynllunio'r cyfarfodydd asesu, dylai ysgolion fod yn ymwybodol bod gan AALlau drefniadau ar waith gyda'u hysgolion mewn perthynas â dychwelyd y Cofnodion Asesu Sefydlu. Mae'n debyg y bydd rhaid dychwelyd y cofnodion **cyn diwedd y tymor**.
I ble?	Y Cydlynydd Sefydlu yn eich Awdurdod Addysg Lleol (AALl)

CAM 4	
Corff cyfrifol?	**Y Cydlynydd Sefydlu yn yr AALl**
Pa weithred?	Bydd yn: • hysbysu CyngACC o'r athrawon sydd wedi cwblhau tymor o Sefydlu (neu gyfnod cyfwerth) lle mae'r AALl wedi derbyn Cofnod Asesu Sefydlu gan yr ysgol
Erbyn pryd?	Dyddiad a bennir gan GyngACC ychydig ar ôl diwedd y tymor

CAM 5	
Corff cyfrifol?	**CyngACC**
Pa weithred?	Pan dderbynnir hysbysiadau gan yr AALlau, bydd yn: • rhyddhau cyllid priodol i'r ysgol; • rhyddhau tystysgrif Sefydlu i'r athro/athrawes, os yw'r athro/athrawes wedi bodloni'r Safon Diwedd Sefydlu
Erbyn pryd?	• Pan dderbynnir hysbysiadau ar ddiwedd **tymor yr haf, caiff cyllid ei ryddhau o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r tymor dilynol;** • pan dderbynnir hysbysiadau **ar unrhyw adeg arall, caiff cyllid ei ryddhau o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr hysbysiad gan yr AALl**

[3] I gael arweiniad mewn perthynas â hyd cyfnod Sefydlu, cyfeiriwch at Gylchlythyr Arweiniad LICC CLICC 15/2008 – Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar yng Nghymru (diwygiedig Mehefin 2008) neu cysylltwch â'r Cydlynydd Sefydlu yn yr AALl

[4] I gael arweiniad mewn perthynas â strwythur Sefydlu, cyfeiriwch at y Ddogfen Wybodaeth – Llawlyfr Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar

*ANG **sy'n gadael** cyflogaeth cyn cwblhau Sefydlu*[5]

Corff cyfrifol?	**Ysgol**
Pa weithred?	Rhaid cwblhau'r ffurflen ganlynol: • **Ffurflen Drosglwyddo** (Dylai'r ysgol hefyd hysbysu'r Cydlynydd Sefydlu yn yr AALl)
Erbyn pryd?	Unwaith y gwyddys y bydd yr athro/athrawes yn gadael cyflogaeth yn yr ysgol, ond o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl i'r athro/athrawes adael yr ysgol, fan bellaf.
I ble?	Tîm Sefydlu a DPC CyngACC

5.3 Manylion allweddol yn ymwneud â chyllid Sefydlu

Talu cyllid Sefydlu i ysgolion, gan gynnwys dull talu

- Lefel y cyllid yw £3,700 fesul ANG fesul cyfnod Sefydlu
- Pwrpas y cyllid yw galluogi'r ysgol i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i'r ANG a'r Tiwtor Sefydlu, gan gynnwys costau a gafwyd wrth roi'r 10% o amser digyswllt statudol sydd ei angen i'r ANG
- Caiff cyllid ei ryddhau'n ôl-weithredol, pan gwblheir tymor Sefydlu (neu gyfnod cyfwerth), felly, bydd ysgol yn cael taliad o £1,233.33 fesul ANG, fesul tymor Sefydlu a gwblhawyd
- Lle bydd athro/athrawes yn ymgymryd â thymor Sefydlu sy'n cynnwys dau hanner tymor olynol mewn dwy ysgol wahanol, caiff y cyllid ei ryddhau yn ôl-weithredol, pan gwblheir tymor o Sefydlu. Bydd rhaid i'r ysgol sy'n cyflogi'r athro/athrawes yn ystod yr hanner tymor cyntaf aros tan ddiwedd y tymor llawn o Sefydlu i'r cyllid gael ei ryddhau
- Os bydd taliad yn ymwneud â thymor olaf cyfnod Sefydlu athro/athrawes, ar yr amod bod y gwaith papur wedi'i gyflwyno'n brydlon, caiff y cyllid ei ryddhau waeth a fydd yr athro/athrawes yn bodloni'r Safon Diwedd Sefydlu
- Mae'r dull y bydd CyngACC yn ei ddefnyddio i ryddhau cyllid Sefydlu i ysgolion yn dibynnu ar statws cyfrif cyllidol yr ysgol:
  - ➢ Os mai ysgol heb lyfr siec yw'r ysgol, bydd CyngACC yn rhyddhau cyllid i'r ysgol drwy ddull a bennir gan yr AALl. Waeth beth fo'r dull talu, hysbysir ysgolion ar bapur bob amser pan gaiff taliad sy'n gysylltiedig ag ysgol ei ryddhau gan GyngACC
  - ➢ Os mai ysgol â llyfr siec yw'r ysgol, bydd CyngACC yn rhyddhau taliad i'r ysgol drwy siec, oni ofynnir iddo wneud hynny drwy BACS. I gadarnhau manylion talu neu i newid y dull talu, cysylltwch â ChyngACC
- Ni fydd CyngACC yn rhyddhau cyllid i gyfrifon cronfeydd preifat ysgolion
- Lle gwneir/anfonir taliadau'n uniongyrchol i ysgolion, ni ddylid gwneud taliadau i gyfrif cronfeydd preifat yr ysgol

[5] I gael arweiniad mewn perthynas â chyfnodau cyflogaeth a all gyfrif tuag at Sefydlu a'r cyfrifoldebau a roddwyd i unigolion pan fydd athro/athrawes yn gadael/symud ysgol yn ystod Sefydlu, cyfeiriwch at Gylchlythyr Arweiniad LICC CLICC 15/2008 – Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yng Nghymru (diwygiedig Mehefin 2008) neu cysylltwch â'r Cydlynydd Sefydlu yn yr AALl

- Ni fydd CyngACC yn rhyddhau taliadau'n uniongyrchol i athrawon

Amgylchiadau lle NA CHAIFF cyllid Sefydlu ei dalu i ysgolion

Ni fydd CyngACC yn rhyddhau cyllid Sefydlu dan yr amgylchiadau canlynol:

- lle na chedwir at y ddogfen arweiniad hon a dogfennau arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn arbennig mewn perthynas â'r gofyniad i gyflwyno gwaith papur yn unol ag amserlenni
- lle nad yw'r athro/athrawes yn bodloni'r meini prawf a nodir yng Ngham 2, ac felly, nid yw'n gymwys i ymgymryd â Sefydlu

Cofrestru Athrawon gyda ChyngACC

Ynglŷn â'r paragraff blaenorol, mae'n bwysig nodi bod rhaid i bob athro/athrawes gymwysedig sy'n gwneud gwaith penodedig mewn ysgol a gynhelir fod wedi'i gofrestru/ei chofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru cyn dechrau yn ei swydd, yn unol ag adran 134 Deddf Addysg 2002 a Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1744 (C. 183)). Os bydd athro/athrawes nad ydynt wedi'u cofrestru gyda ChyngACC yn dechrau Sefydlu mewn ysgol yng Nghymru, byddai'r ysgol a'r AALl yn torri'r gyfraith.

Talu cyllid Sefydlu i ysgolion ar gyfer athrawon sy'n ymgymryd â Sefydlu ar gontractau rhan-amser [6]

Os yw athro/athrawes yn ymgymryd â chyfnod Sefydlu tra'n cael ei gyflogi/chyflogi gan yr ysgol ar gontract rhan-amser, bydd CyngACC yn rhyddhau'r cyllid unwaith y bydd yr athro/athrawes wedi cwblhau tymor llawn o Sefydlu neu gyfnod cyfwerth, ar yr amod bod y camau yn adran 5.2 wedi'u dilyn.

Er enghraifft, os yw athro/athrawes yn ymgymryd â Sefydlu ar 0.5 o gontract amser llawn mewn ysgol sy'n gweithredu blwyddyn ysgol dri thymor, bydd tymor llawn o Sefydlu wedi'i gwblhau ar ôl dau dymor ysgol, felly, rhyddheir cyllid i'r ysgol ar ôl dau dymor ysgol.

Os yw athro/athrawes yn ymgymryd â chyfnod Sefydlu tra'n cael ei gyflogi/chyflogi gan yr ysgol ar gontract rhan-amser ond bydd contract yr athro/athrawes yn dod i ben cyn i'r athro/athrawes gwblhau tymor llawn o Sefydlu neu gyfnod cyfwerth, bydd CyngACC yn rhyddhau'r cyllid yn gymesur, ar yr amod bod yr AALl yn cadarnhau bod y cyfnod o gyflogaeth yn addas i gyfrif tuag at Sefydlu.

Er enghraifft, os yw athro/athrawes yn ymgymryd â Sefydlu ar 0.6 o gontract llawn-amser mewn ysgol sy'n gweithredu blwyddyn ysgol dri thymor, ond cyflogir yr athro/athrawes am un tymor yn unig, bydd CyngACC yn rhyddhau £740, sef 60% o £1,233.33.

[6] Ar gyfer arweiniad ynghylch pa gyfnodau o gyflogaeth ran-amser a allai gyfrif tuag at Sefydlu a hyd cyfnod Sefydlu ar gyfer athrawon rhan-amser, cyfeiriwch at Gylchlythyr Arweiniad LICC CLIC 15/2008 – Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso (diwygiedig Mehefin 2008) neu cysylltwch â'r Cydlynydd Sefydlu yn yr AALl

Talu cyllid Sefydlu i ysgolion ar gyfer athrawon sy'n ymgymryd â Sefydlu mewn mwy nag un ysgol ar yr un pryd (e.e. athrawon peripatetig)[7]

Os bydd athro/athrawes yn ymgymryd â chyfnod Sefydlu mewn mwy nag un ysgol ar yr un pryd, bydd CyngACC, oni chaiff ei hysbysu'n wahanol, yn rhyddhau cyllid i'r ysgolion yn gymesur, yn dibynnu ar yr amser mae'r ANG yn gweithio ym mhob ysgol.

Er enghraifft, os yw athro/athrawes yn gweithio 0.3 o gontract llawn amser mewn un ysgol a 0.7 o gontract llawn-amser mewn ysgol arall, caiff y cyllid ei rannu 30%/70% rhwng y ddwy ysgol.

Talu cyllid Sefydlu i ysgolion ar gyfer athrawon sy'n cwblhau estyniad i gyfnod Sefydlu[8]

Os caiff cyfnod Sefydlu athro/athrawes ei ymestyn oherwydd absenoldeb o 30 diwrnod neu fwy, ni fydd CyngACC yn rhyddhau cyllid ychwanegol i'r ysgol ar gyfer yr estyniad.

Os caiff cyfnod Sefydlu athro/athrawes ei ymestyn oherwydd 'amgylchiadau eithriadol', bydd CyngACC yn rhyddhau cyllid ychwanegol i'r ysgol lle caiff y cyfnod Sefydlu ei gwblhau ar sail pro-rata, yn dibynnu ar hyd cyfnod yr estyniad.

Er enghraifft, os caiff cyfnod Sefydlu athro/athrawes ei ymestyn oherwydd 'amgylchiadau eithriadol' am hanner tymor, bydd CyngACC yn rhyddhau gwerth hanner tymor o cyllid Sefydlu i'r ysgol pan gwblheir cyfnod yr estyniad.

6.0 Sut i gyrchu cyllid ar gyfer athrawon sy'n ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC)

6.1 Manylion yr adran hon

Mae'r adran hon yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar ysgolion er mwyn cyrchu cyllid ar gyfer athrawon sy'n cymryd eu hawl DPC.

Mae angen i ysgolion ddilyn y camau a nodir yn is-adran 6.2 er mwyn sicrhau bod cyllid ar gyfer DPC yn cael ei ryddhau i ysgolion yn llwyddiannus ac yn brydlon.

Os na dderbynnir y gwaith papur yn ôl yr amserlenni penodol, ni thelir y cyllid i ysgolion.

Mae pob cam yn nodi'r canlynol:

- y corff sy'n gyfrifol am y cam;
- gweithredu gofynnol, gan gynnwys unrhyw ffurflenni angenrheidiol y mae angen i'w cwblhau;
- terfyn amser ar gyfer cwblhau'r gweithred, lle y bo'n briodol;
- manylion y corff y dylid anfon unrhyw ffurflenni ato, lle y bo'n briodol.

Mae Camau 1 a 3 yn ymwneud yn benodol â gweithred i'r ysgol; os bydd yr ysgol yn methu â chwblhau'r camau hyn o fewn yr amserlenni a osodwyd, ni fydd CyngACC yn rhyddhau cyllid i'r ysgol.

[7] Ar gyfer arweiniad ynghylch pa gyfnodau o gyflogaeth a allai gyfrif tuag at Sefydlu a rolau a chyfrifoldebau'r rheiny sy'n ymwneud â Sefydlu i athrawon sy'n ymgymryd â Sefydlu mewn mwy nag un ysgol, cyfeiriwch at Gylchlythyr Arweiniad LICC CLIC 15/2008 – Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yng Nghymru (diwygiedig Mehefin 2008) neu cysylltwch â'r Cydlynydd Sefydlu yn yr AALl

[8] Ar gyfer arweiniad mewn perthynas ag estyniadau i'r cyfnod Sefydlu, cyfeiriwch at Gylchlythyr Arweiniad LICC CLICC 15/2008 – Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yng Nghymru (diwygiedig Mehefin 2008) neu cysylltwch â'r Cydlynydd Sefydlu yn yr AALl

Mae'r adran hon yn rhoi manylion mewn perthynas â chyllid DPC yn unig. Os bydd angen cyngor neu arweiniad ar yr ysgol mewn perthynas ag unrhyw agwedd arall ar DPC, er enghraifft:

- rolau a chyfrifoldebau unigolion yn y rhaglen DPC;
- sut i gynllunio, cychwyn ac arolygu'r rhaglen DPC;

dylai'r ysgol gyfeirio at ddogfennaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y nodir yn adran 3.0. **Dylid gwneud hyn cyn cychwyn ar y camau a nodir isod**.

6.2 Camau ar gyfer cyrchu cyllid DPC

*Athrawon sy'n **dechrau** blwyddyn DPC*[9]

CAM 1	
Corff cyfrifol?	**Ysgol**
Gweithred?	Rhaid cwblhau'r ffurflen ganlynol: • **Ffurflen Gynllunio Blwyddyn Gyntaf neu Ail Flwyddyn DPC**
Erbyn pryd?	Ar yr hwyraf o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau blwyddyn gyntaf neu ail flwyddyn o DPC yr athro/athrawes
I ble?	Tîm Sefydlu a DPC CyngACC

CAM 2	
Corff cyfrifol?	**CyngACC**
Action?	Pan dderbynnir y Ffurflen Gynllunio Blwyddyn Gyntaf neu Ail Flwyddyn DPC, bydd yn: ■ gwirio bod yr athro/athrawes: • yn meddu ar Statws Athro Cymwysedig (SAC); • wedi'i gofrestru/chofrestru gyda ChyngACC; • wedi bodloni'r Safon Diwedd Sefydlu; • yn gymwys i ymgymryd â DPC; ■ cadarnheir yr uchod, gwirio cymhwysedd y gweithgareddau/gwariant DPC a gofnodir ar y Ffurflen Gynllunio, a chydnabod, ar bapur, gymhwysedd y Ffurflen Gynllunio; ■ os na chadarnheir yr uchod, ysgrifennu at yr ysgol mewn perthynas â hyn

[9] I gael arweiniad mewn perthynas â chynllunio blwyddyn DPC, cyfeiriwch at adran DPC Dogfen Wybodaeth LICC – Llawlyfr Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar (dogfen LICC)

*Athrawon **sy'n cwblhau** blwyddyn DPC*[10]

CAM 3	
Corff cyfrifol?	**Ysgol**
Action?	Rhaid cwblhau'r ffurflen ganlynol: ■ **Ffurflen Werthuso Blwyddyn Gyntaf neu Ail Flwyddyn DPC** Rhaid darparu dadansoddiad manwl o'r gwariant DPC gwirioneddol a dynnwyd wrth gwblhau'r gweithgareddau DPC drwy gydol y flwyddyn DPC ar y Ffurflen Werthuso DPC (darperir enghraifft o'r dadansoddiad o wariant sy'n ofynnol gan GyngACC ar dudalennau 18 a 19). Mae'n bwysig bod yr ysgol yn hysbysu CyngACC os na chafwyd unrhyw gostau yn ystod y flwyddyn DPC.
Erbyn pryd?	Unwaith i'r holl weithgareddau DPC gael eu cwblhau, ond erbyn diwedd blwyddyn DPC yr athro/athrawes fan bellaf.
I ble?	Tîm Sefydlu a DPC CyngACC

CAM 4	
Corff cyfrifol?	**CyngACC**
Gweithred?	Pan dderbynnir y Ffurflen Werthuso Blwyddyn Gyntaf neu Ail Flwyddyn DPC, bydd yn: ■ gwirio a yw'r gweithgareddau/gwariant DPC a gofnodir ar y Ffurflen Werthuso yn gymwys ■ cydnabod, ar bapur, gymhwysedd y Ffurflen Werthuso a chadarnhau swm y cyllid a gaiff ei ryddhau i'r ysgol ■ rhyddhau cyllid i'r ysgol
Erbyn pryd?	■ Pan dderbynnir y Ffurflenni Gwerthuso ar ddiwedd tymor yr haf, caiff cyllid ei ryddhau o fewn 10 diwrnod gwaith o ddechrau'r tymor nesaf ■ Pan dderbynnir Ffurflenni Gwerthuso ar unrhyw adeg arall, caiff cyllid ei ryddhau o fewn 35 diwrnod gwaith ar ôl eu derbyn

***Diwygiadau/ychwanegiadau** i weithgareddau/gwariant DPC athro/athrawes fel y nodir ar y Ffurflen Gynllunio a gytunwyd gan GyngACC*

Corff cyfrifol?	**Ysgol**
Pa weithred?	Dylid cysylltu â Thîm Cyllido Sefydlu a DPC CyngACC dros y ffôn, drwy e-bost neu lythyr gyda manylion y gweithgreddau/gwariant diwygiedig/ychwanegol
Erbyn pryd?	Ar unrhyw adeg yn ystod blwyddyn DPC yr athro/athrawes, cyn ymgymryd â'r gweithgaredd

[10] I gael arweiniad mewn perthynas â chynllunio blwyddyn DPC, cyfeiriwch at adran DPC Dogfen Wybodaeth LICC – Llawlyfr Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar (dogfen LICC)

Corff cyfrifol?	CyngACC
Pa weithred?	Bydd yn: ■ cadarnhau cymhwysedd y gweithgareddau/gwariant diwygiedig/ychwanegol ■ gwneud unrhyw ddiwygiadau/ychwanegiadau sydd eu hangen i'r Ffurflen Gynllunio wreiddiol a gyflwynwyd i GyngACC gan yr ysgol a chydnabod, ar bapur, gymhwysedd y gweithgareddau/gwariant diwygiedig/ychwanegol

Mae'n bwysig cysylltu â ChyngACC os bydd oriau contract athro/athrawes yn newid, os bydd athrawes yn cymryd cyfnod mamolaeth, neu os bydd athro/athrawes yn absennol am gyfnod sylweddol, gan y gallai amgylchiadau o'r fath effeithio ar y dyddiad pan fydd yr athro/athrawes yn cwblhau'r flwyddyn DPC.

*Athrawon **sy'n gadael** eu swydd cyn cwblhau blwyddyn DPC gyflawn*

Corff cyfrifol?	Ysgol
Pa weithred?	Rhaid cwblhau'r ffurflenni canlynol: ■ **Ffurflen Werthuso Blwyddyn Gyntaf neu Ail Flwyddyn DPC** ■ **Ffurflen Drosglwyddo** Rhaid darparu dadansoddiad manwl ar y Ffurflen Werthuso DPC o'r gwariant DPC gwirioneddol a gafwyd wrth ymgymryd â'r gweithgareddau DPC yn ystod cyflogaeth yr Athro/Athrawes DPC yn yr ysgol (darperir enghraifft o'r dadansoddiad o wariant sydd ei angen gan GyngACC ar dudalennau 18 a 19). Mae'n bwysig bod yr ysgol yn hysbysu CyngACC os na chafwyd unrhyw gostau yn ystod cyflogaeth yr Athro/Athrawes DPC.
Erbyn pryd?	Ar ddiwedd cyflogaeth yr athro/athrawes yn yr ysgol
I ble?	Tîm Sefydlu a DPC CyngACC

6.3 Gweithgaredd a gwariant DPC

Gweithgareddau DPC

Mater i'r Athro/Athrawes DPC, mewn partneriaeth â'r Mentor DPC, yw gosod amcanion ar gyfer y flwyddyn DPC. Yr athro/athrawes a'r Mentor sy'n gyfrifol hefyd am gytuno ar weithgareddau datblygiad proffesiynol er mwyn cyflawni'r amcanion a osodwyd a dyrannu'r cyllid ar gyfer y gweithgareddau hyn, os yw'n briodol.

I gael cyngor ac arweiniad ynghylch sut i gynllunio a rhoi cychwyn ar y rhaglen DPC, dylech gyfeirio at ddogfennaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn enwedig adran DPC Dogfen Wybodaeth – Llawlyfr Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar

Bydd CyngACC yn gwirio Ffurflenni Cynllunio a Gwerthuso DPC athrawon er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau cymwys yn unig.

Ni fydd CyngACC yn gwirio Ffurflenni Cynllunio a Gwerthuso athrawon er mwyn gwerthuso priodoldeb y gweithgareddau i arfer pob athro/athrawes.

Gwariant DPC cymwys

Gellir defnyddio cyllid ar gyfer pob cost resymol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau DPC, fel:

- costau cyflenwi – ar gyfer yr amser pan fyddai athro/athrawes yn addysgu fel arfer – telir costau cyflenwi ar gyfradd o hyd at £165 y dydd ar gyfer athrawon cyflenwi cymwysedig a hyd at £80 y dydd ar gyfer goruchwylwyr a staff eraill
- ffioedd cyrsiau, cynadleddau neu weithdai
- ffioedd ymgynghorwyr
- costau teithio a chynhaliaeth rhesymol (ac eithrio diodydd meddwol)
- prynu deunyddiau sy'n benodol berthnasol i DPC yr athro/athrawes, fel llyfrau, fideos neu feddalwedd hyd at uchafswm o 10% o gyfanswm y prosiect. Bydd unrhyw ddeunyddiau a brynir at y diben hwn yn parhau'n eiddo i'r ysgol yn hytrach nag i'r athro/athrawes unigol

Gwariant DPC anghymwys

Ni ellir defnyddio'r cyllid ar gyfer y gweithgareddau/gwariant DPC canlynol:

- gweithgareddau yr ymgymerir â hwy y tu allan i'r flwyddyn DPC berthnasol
- gweithgareddau yr ystyrir eu bod yn rhan o waith arferol athro/athrawes
- cyfarfodydd a amserlennir bob tymor
- cyflogi athrawon rhan-amser neu athrawon cyflenwi i ymgymryd â gweithgareddau DPC ar ddiwrnodau nad ydynt wedi'u contractio ar eu cyfer
- tywys disgyblion ar ymweliadau ysgol neu i fynychu gweithgareddau sydd wedi'u bwriadu'n bennaf ar gyfer disgyblion
- gwariant cyfalaf
- adnoddau ar gyfer disgyblion
- prynu cetris inc, ffeiliau, nwyddau papur yn gyffredinol
- costau lleoliadau
- ysgrifennu traethodau aseiniadau addysg uwch MA/MAdd
- gwasanaethau nad ydynt yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygiad proffesiynol athro/athrawes fel teipio adroddiadau, rhwymo adroddiadau, trawsgrifio tapiau, laminadu neu argraffu llyfrynnau, llungopïo, gwersi/profion minibws
- talu athrawon ar gyfer gweithgareddau yr ymgymerir â hwy gyda'r nos neu ar benwythnosau
- cyfieithu adnoddau

6.4 Manylion allweddol yn ymwneud â chyllido DPC

Talu cyllid DPC i ysgolion, gan gynnwys dull talu

- Lefel y cyllid fydd £1,000 fesul Athro/Athrawes DPC fesul blwyddyn DPC
- Rhyddheir cyllid yn ôl-weithredol pan gwblheir blwyddyn DPC
- Bydd CyngACC yn rhyddhau cyllid ar sail gwariant gwirioneddol hyd at £1,000. Er enghraifft, os mai dim ond £800 a gaiff ei wario ar DPC athro/athrawes, dyma'r swm a delir gan GyngACC

- Caiff cyllid ei ryddhau ar sail y costau gwirioneddol a ddarperir ar y Ffurflen Werthuso DPC
- Ni fydd gofyniad i ysgolion gyflwyno anfonebau neu dderbynebau am y bydd y pennaeth yn ardystio'r hawliad
- Mae'r dull a ddefnyddir gan GyngACC i ryddhau cyllid DPC yn dibynnu ar statws cyfrif cyllidol yr ysgol:
  - ➢ Os mai ysgol heb lyfr siec yw'r ysgol, bydd CyngACC yn rhyddhau cyllid i'r ysgol drwy ddull a bennir gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Waeth beth fo'r dull talu, hysbysir ysgolion ar bapur bob amser pan gaiff taliad sy'n gysylltiedig ag ysgol ei ryddhau gan GyngACC
  - ➢ Os mai ysgol â llyfr siec yw'r ysgol, bydd CyngACC yn rhyddhau taliad i'r ysgol drwy siec, oni ofynnir iddo wneud hynny drwy BACS; felly, i gadarnhau manylion talu neu i newid y dull talu, cysylltwch â ChyngACC
- Ni fydd CyngACC yn rhyddhau cyllid i gyfrifon cronfeydd preifat ysgolion
- Lle gwneir/anfonir taliadau'n uniongyrchol i ysgolion, ni ddylid gwneud taliadau i gyfrif cronfeydd preifat yr ysgol
- Ni fydd CyngACC yn rhyddhau taliadau'n uniongyrchol i athrawon

Amgylchiadau lle NA RYDDHEIR cyllid DPC i ysgolion

Ni fydd CyngACC yn rhyddhau cyllid DPC yn yr amgylchiadau canlynol:

- lle na chedwir at y ddogfen arweiniad hon, yn arbennig y gofyniad i gyflwyno gwaith papur yn unol â'r amserlenni
- lle nad yw'r athro/athrawes yn bodloni'r meini prawf a nodir yng Ngham 2, ac felly, nid yw'n gymwys i ymgymryd â DPC
- lle mae'n aneglur o'r wybodaeth a ddarperir ar y Ffurflen Werthuso pa weithgaredd DPC sydd wedi'i gwblhau, a/neu mae'n aneglur sut mae'r gwariant yn perthyn i'r gweithgaredd
- lle mae'r dadansoddiad manwl o'r gwariant ar y Ffurflen Werthuso'n aneglur
- lle bydd CyngACC yn pennu bod y gweithgaredd/gwariant yn anghymwys, yn unol â'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn adran 6.3

Cofrestru Athrawon gyda ChyngACC

Ynglŷn â'r paragraff blaenorol, mae'n bwysig nodi bod rhaid i bob athro/athrawes gymwysedig sy'n gwneud gwaith penodedig mewn ysgol a gynhelir fod wedi'i gofrestru/ei chofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru cyn dechrau yn ei swydd, yn unol ag adran 134 Deddf Addysg 2002 a Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1744 (C. 183)). Os bydd athro/athrawes nad ydynt wedi'u cofrestru gyda ChyngACC yn dechrau DPC mewn ysgol yng Nghymru, byddai'r ysgol a'r AALl yn torri'r gyfraith.

Athrawon sy'n gweithio ar gontractau rhan-amser

Os yw athro/athrawes yn ymgymryd â chyfnod o DPC tra'n cael ei gyflogi/chyflogi gan ysgol ar gontract rhan-amser, caniateir cyfnod sy'n cyfateb i flwyddyn ysgol gyfan i'r athro/athrawes gwblhau eu gweithgareddau DPC.

Er enghraifft, os yw athro/athrawes yn ymgymryd â DPC ar 0.5 o gontract amser llawn mewn ysgol sy'n gweithredu blwyddyn ysgol dri thymor, bydd blwyddyn gyflawn o DPC wedi'i chwblhau ar ôl dwy flwyddyn academaidd, felly, rhyddheir cyllid i'r ysgol ar ôl dwy flwyddyn academaidd, ar yr amod bod y camau yn adran 6.2 wedi'u dilyn.

Athrawon sy'n gweithio mewn mwy nag un ysgol ar yr un pryd (e.e. athrawon peripatetig)

Os yw athro/athrawes yn ymgymryd â chyfnod o DPC mewn mwy nag un ysgol ar yr un pryd, cyfrifoldeb yr athro/athrawes DPC yw cydlynu eu gweithgareddau DPC a sicrhau bod pob ysgol sy'n ei gyflogi/chyflogi yn ymwybodol o'r gweithgareddau yr ymgymerir â hwy ym mhob ysgol. Cyfrifoldeb yr Athro/Athrawes hefyd yw sicrhau bod pob ysgol lle mae'n ymgymryd â gweithgareddau DPC ac yn tynnu gwariant DPC yn cwblhau'r camau a nodir yn adran 6.2.

Bydd CyngACC yn rhyddhau'r cyllid yn gymesur, yn dibynnu ar y gwariant DPC a dynnwyd gan bob ysgol.

Mae'r hawl DPC yn dilyn yr athro/athrawes ac nid yr ysgol, felly, mae uchafswm o £1,000 ar gael i'w wario fesul athro/athrawes fesul blwyddyn, waeth ym mha nifer o ysgolion y mae'r athro/athrawes yn cael ei gyflogi/chyflogi.

Defnyddio'r hawl DPC lawn o £1,000

Rhoddir pob anogaeth gan GyngACC i athrawon gyrchu eu hawl DPC lawn o £1,000 yn ystod eu blwyddyn gyntaf o DPC a'u hawl DPC lawn o £1,000 yn ystod eu hail flwyddyn o DPC.

Os nad yw athro/athrawes yn defnyddio'u hawl DPC lawn yn ystod eu blwyddyn DPC, caiff y cyllid nas gwariwyd ei golli. Ni ellir bancio cyllid i'w ddefnyddio rywbryd arall.

Athrawon nad ydynt yn cyrchu eu hawl DPC

Bydd athro/athrawes yn dod yn gymwys i gyrchu'r hawl DPC pan fydd ef/hi wedi bodloni'r Safon Diwedd Sefydlu.

Bydd yr hawl blwyddyn gyntaf DPC o hyd at £1,000 ar gael yn ystod y flwyddyn o gyflogaeth ar ôl cwblhau Sefydlu.

Bydd yr hawl ail flwyddyn DPC o hyd at £1,000 ar gael yn ystod yr ail flwyddyn o gyflogaeth ar ôl cwblhau Sefydlu.

Os bydd athro/athrawes yn dewis peidio â chymryd eu hawl yn ystod y cyfnodau cyflogaeth hyn neu'n penderfynu peidio â chymryd cyflogaeth fel athro/athrawes yn ystod y ddwy flynedd ar ôl cwblhau Sefydlu, bydd yr athro/athrawes yn fforffedu eu hawl DPC.

Os yw athro/athrawes wedi methu â chael cyflogaeth lle gellir cymryd eu hawl DPC yn ystod y cyfnodau hyn, dylai'r athro/athrawes gysylltu â ChyngACC i gael cyngor.

Ffurflenni DPC Enghreifftiol

Y Gwerthusiad DPC (gan gynnwys costiau gwirioneddol y gweithgareddau DPC)

Amcanion	Gweithgaredd	Myfyrdod/Canlyniadau	Dyddiad cwblhawyd y weithgaredd	Cost gwirioneddol y gweithgaredd (£)	
				Costau staff – nodwch nifer y diwrnodau cyflenwi a'r gyfradd gyflenwi	Costau eraill – nodwch yr hyn mae'r gwariant yn ymwneud ag ef, e.e. costau cwrs
Gwella addysgu a dysgu mewn mathemateg – datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth pwnc penodol gan ddefnyddio amrywiaeth of ddulliau	• Mynychwyd cwrs HMS perthnasol ar addysgu mathemateg • Derbyniwyd hyfforddiant mewnol yn cynnwys hyfforddi, addysgu ar y cyd, arsylwi'r cydlynydd mathemateg, arsylwi'r cydlynydd mathemateg a chael ei harsylwi gan y cydlynydd mathemateg	Roedd y strategaeth hon yn llwyddiannus ac arweiniodd at welliant yng ngwaith y disgyblion a daeth yr athro yn fwy hyderus with gyflwyno gwersi mathemateg	10/12/2008 Diwedd tymor y gwanwyn 2009	**£165** – 1 diwrnod o gyflenwi i fynychu'r cwrs **£82.50** - ½ diwrnod o gyflenwi i ryddhau y cydlynydd mathemateg i arsylwi'r Athro DPC **£82.50** - ½ diwrnod o gyflenwi i ryddhau yr Athro DPC i arsylwi'r cydlynydd mathemateg **£165** - ½ diwrnod o gyflenwi x 2 i ryddhau yr Athro DPC a'r cydlynydd i gwrdd am adborth ac hyfforddiant	£90 – ffi cwrs
Datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddod yn arweinydd y cwricwlwm	• Trafodwyd polisi a nodweddion cynlluniau gwaith da gydag ymgynghorydd AALl • Bu iddo weithio i ddatblygu cynllun gwaith gyda deiliad swydd profiadol	Mae'r athro wedi datblygu cynllun gwaith yn ei maes cyfrifoldeb ei hun	19/01/2009 Diwedd tymor yr haf 2009	**£82.50** - ½ diwrnod o gyflenwi i ryddhau yr Athro DPC i gyfarfod gyda'r ymgynghorydd AALl **£330** - 2 diwrnod o gyflenwi i ryddhau yr Athro DPC i weithio ar ddatblygu'r cynllun gwaith **£165** - 1 diwrnod o gyflenwi i ryddhau yr athro profiadol i weithio gyda'r Athro DPC i ddatblygu'r cynllun gwaith	£100 – cost yr ymgynghorydd AALl

ENGRAFFT

Dyma astudiaeth achos, yn seiliedig ar ysgol gynradd, o Ddogfen Wybodaeth LICC – Llawlyfr Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar. Mae CyngACC wedi cymryd yr astudiaeth achos ac ychwanegu costau fel enghraifft o sut y dylid llenwi'r Ffurflen Werthuso. Mae cyfanswm y gwariant a gofnodir ar yr enghraifft hon yn uwch na'r hawl £1,000 – mewn achosion o'r fath, bydd CyngACC ond yn rhyddhau £1,000.

Y Gwerthusiad DPC (gan gynnwys costau gwirioneddol gweithgareddau DPC)

Amcanion	Gweithgaredd	Myfyrdod/Canlyniadau	Dyddiad cwblhawyd y weithgaredd	Cost gwirioneddol y gweithgaredd (£)	
				Costau staff – nodwch nifer y diwrnodau cyflenwi a'r gyfradd gyflenwi	Costau eraill – nodwch yr hyn mae'r gwariant yn ymwneud ag ef, e.e. costau cwrs
Ehangu dealltwriaeth yr Athrawes DPC o addysgu Cymraeg fel ail iaith ar gyfer TGAU i baratoi ar gyfer cyflwyno cwrs Cymraeg TGAU newydd	• Bu iddi arsylwi cydweithiwr yn addysgu Ieithoedd Tramor Modern yn ysgol	Yn sgîl y DPC roedd yr athrawes yn fwy parod am yr her o ddarparu cwrs newydd	19/09/2008	**£82.50** - ½ diwrnod o gyflenwi i ryddhau yr Athrawes DPC i arsylwi	
	• Cafwyd hyfforddiant gan Bennaeth Ieithoedd Tramor Modern yr ysgol ar sut i redeg adran	Wrth baratoi ar gyfer y cwrs newydd datblygodd yr Athrawes DPC amrywiaeth o strategaethau ar gyfer addysgu ac ysgogi disgyblion a oedd hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer dosbarthiadau CA3	08/12/2008	**£165** - ½ diwrnod o gyflenwi x 2 i ryddhau yr Athrawes DPC a'r Pennaeth Ieithoedd Tramor Modern i gwrdd am sesiwn hyfforddiant	
Ymgyfarwyddo â manylion yr arholiad TGAU newydd	• Ymwelwyd ag adran Gymraeg mewn ysgol arall • Mynychwyd HMS undydd wedi'i drefnu gan y Bwrdd Arholi		09/02/2009	**£165** - 1 diwrnod o gyflenwi i ryddhau yr Athrawes DPC i ymweld ag ysgol arall	Dim ffi cwrs
Paratoi'n benodol i addysgu'r cwrs newydd	• Darparwyd amser datblygu proffesiynol i baratoi/datblygu adnoddau yn seiliedig ar yr hyfforddiant a ddarperir gan y Bwrdd Arholi	Datblygodd yr Athrawes DPC rwydwaith o gysylltiadau ymysg athrawon sy'n wynebu heriau tebyg a darparodd hyn gymorth pellach	16/03/2009	**£165** - 1 diwrnod o gyflenwi i ryddhau yr Athrawes DPC i fynychu'r cwrs	£10 costau teithio mynychu'r cwrs
	• Darparwyd amser a mynediad i gyfleusterau TGCh er mwyn paratoi adnoddau Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol i'w defnyddio wrth addysgu'r cwrs		19+20/03/2009 16/06/2009	**£330** - 2 ddiwrnod o gyflenwi i'r Athrawes DPC **£165** - 1 diwrnod o gyflenwi i'r Athrawes DPC	

ENGHRAIFFT

Dyma astudiaeth achos, yn seiliedig ar ysgol uwchradd, o Ddogfen Wybodaeth LICC – Llawlyfr Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar. Mae CyngACC wedi cymryd yr astudiaeth achos ac ychwanegu costau fel enghraifft o sut y dylid llenwi'r Ffurflen Werthuso. Mae cyfanswm y gwariant a gofnodir ar yr enghraifft hon yn uwch na'r hawl £1,000 – mewn achosion o'r fath, bydd CyngACC ond yn rhyddhau £1,000.

7.0 Cysylltiadau defnyddiol

Ar gyfer unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r ddogfen hon neu unrhyw ymholiadau eraill yn ymwneud â chyllido Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar, dylech gysylltu â'r canlynol:

Y Tîm Cyllido Sefydlu a DPC
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
4ydd Llawr
Southgate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 029 2055 0350
Ffacs: 029 2055 0360
E-bost: sefydlu&dpc@gtcw.org.uk
Gwefan: www.gtcw.org.uk

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol yn ymwneud â rhaglenni Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar, dylech gysylltu â'r canlynol:

Y Tîm Sefydlu
Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol (IGDDP)
APADGOS
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2080 1389
Ffacs: 029 2082 6109
E-bost: inductioninfo@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â chyfnod Sefydlu/cyfnod o gyflogaeth athro/athrawes benodol a allai gyfrif tuag at Sefydlu, cysylltwch â'r canlynol:

Y Cydlynydd Sefydlu yn eich AALl (mae rhestr o Gydlynwyr Sefydlu ar gael ar wefan CyngACC)

Ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â Chofrestru Athrawon gyda ChyngACC, cysylltwch â'r canlynol:

Y Tîm Cymwysterau a Chofrestru
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
4ydd Llawr
Southgate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 029 2055 0350
Ffacs: 029 2055 0360
E-bost: cofrestru@gtcw.org.uk
Gwefan: www.gtcw.org.uk